

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd dros y rhwydwaith fideo am 10.00 – 11.30 ar 16 Mai 2017

Yn bresennol:

Aelodau: Dr Haydn E Edwards (Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr)
William Callaway
Yr Athro Iwan Davies (dros y ffôn)
Gareth Eyres
Gareth Pierce

Archwilwyr: Carol Warburton, KTS Owens Thomas (Archwilwyr mewnol)

Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Catherine Rees, Ysgrifennydd y Coleg
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd
Nia Brown, Swyddog Datblygu

Ymddiheuriadau: Dr Rhodri Llwyd Morgan

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso ac ymddiheuriadau	1.1 Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan Dr Haydn Edwards a oedd yn cadeirio'r cyfarfod. 1.2 Nodwyd ymddiheuriadau, fel uchod.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Datganodd Gareth Pierce, Prif Weithredwr, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC), ddiddordeb yng ngwaith y Dystysgrif Sgiliau Iaith, a ymddangosai yn y papurau.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	2.2 Datganodd Dr Haydn Edwards, Gareth Eyres a Gareth Pierce ddiddordeb yn yr eitem ar ffioedd i aelodau pwyllgorau a phaneli'r Coleg.		
3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a Materion yn Codi	<p>3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2017, fel cofnod cywir.</p> <p>3.2 <u>Eitem 4.1 – Penodi cyfarwyddwr newydd</u> Nodwyd bod y Pwyllgor Penodiadau wedi cyfarfod a bod y rôl wedi ei hysbysebu. Cynhelir cyfweiliadau ar 12 Mehefin 2017. Cymeradwyir y penodiad yn ffurfiol gan y Bwrdd ar 21 Mehefin 2017.</p> <p>3.3 <u>Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg</u> Nodwyd y bydd aelodaeth a chadeiryddiaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y Bwrdd ar 21 Mehefin 2017.</p> <p>3.4 <u>Eitem 6 – Y Gofrestr Risg</u> 6.2 - Nodwyd y diweddarwyd y Gofrestr Risg yn sgil y newidiadau a drafodwyd ar 14 Chwefror 2017. 6.2.5 - Nodwyd fod ail-ddylunio'r Gofrestr Risg yn waith sylweddol. Cytunwyd y dylid adolygu'r prif risgiau dros y misoedd nesaf a datblygu'r ymateb iddynt mewn cydweithrediad â'r archwilwyr mewnol. Cytunwyd y byddai'r Prif Weithredwr yn adrodd ar y broses hon yn ei adroddiad i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 21 Mehefin 2017.</p> <p>3.5 <u>Eitem 7.4 – Adolygiad Canghennau</u> Yn dilyn trafodaeth yn y Bwrdd ar 22 Mawrth 2017, adroddwyd bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r holl ganghennau yn ystod mis Mai gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad ac argymhellion pellach i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 21 Mehefin 2017.</p> <p>3.6 <u>Eitem 9 – Trefniadau bancio'r Coleg</u> Adroddwyd y bwriedir argymhell i'r Bwrdd bod Banc Barclays yn cael eu penodi am gyfnod o bum mlynedd,</p>	<p>Penodi Cadeirydd i'r PAR</p> <p>Adolygu'r Gofrestr Risg a'i chyflwyno i'r PAR (IM)</p> <p>Adrodd i'r BC (IM)</p> <p>Cyflwyno argymhelliad i'r BC i benodi banc</p>	<p>21 Mehefin 2017</p> <p>7 Tachwedd 2017</p> <p>21 Mehefin 2017</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	ond bod y trefniant i'w adolygu ymhen blwyddyn i fesur y cynnydd mewn gwasanaeth Cymraeg, gan gynnwys darparu ffurflenni.	Barclays ac adolygu'r trefniadau mewn blwyddyn (IM/CR)	21 Mehefin 2017 a thymor yr haf 2018
4. Cyllideb y Coleg 2017/18	<p>4.1 Cafwyd diweddariad llafar ar Gyllideb y Coleg ar gyfer 2017/18 gan y Cofrestrydd.</p> <p>4.2 Adroddwyd nad oedd manylion y gyllideb wedi newid ers cyfarfod y Pwyllgor ar 14 Chwefror 2017 a bod y rhagdybiaethau a gyflwynwyd bryd hynny'n parhau.</p> <p>4.3 Cadarnhawyd bod y Gyllideb wedi ei chymeradwyo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 22 Mawrth 2017.</p>		
5. Cyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer Chwarter 2 a 3 2016/17 (Eitemau 5)	<p>5.1 Cafwyd eglurhad ar Gyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer chwarter 2 a 3 2016/17 gan y Cofrestrydd.</p> <p>5.2 Eglurwyd bod rhagamcanion gwariant a thanwariant Ionawr 2017 yn gyson ag incwm y Cyngor Cyllido.</p> <p>5.3 Adroddwyd bod y crynodeb tan fis Mawrth 2017 yn unol â'r disgwyliadau ac nad yw'r incwm a gwariant gan y Cyngor Cyllido'n amrywio.</p> <p>5.4 Gwiriwyd y cyllid na wariwyd yn sgil y Cynlluniau Dysgu Rhan Amser ac adroddwyd nad oedd galw ar adnoddau'r Coleg mwyach, ar yr achlysur hwn, gan fod y Brifysgol Agored yn ariannu prosiect penodol.</p> <p>5.5 Trafodwyd manylder y cyfrifon papur a gyflwynir i'r pwyllgor. Adroddwyd bod y Pwyllgor Cyllid mewnol, a sefydlwyd ers dwy flynedd, yn trafod y manylion cyllidebol manwl. Cytunwyd y dylai'r swyddogion adolygu dull cyflwyno'r cyfrifon ar gyfer y dyfodol gan gynnwys data golygyddol a chrynodeb naratif.</p> <p>5.6 Adroddodd y Prif Weithredwr nad oedd manylion wedi dod i law hyd yma ynghylch ffurf yr adroddiadau monitro sydd i gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.</p> <p>5.7 Yn dilyn trafodaeth, derbyniwyd y cyfrifon.</p>	Adolygu cyflwyno cyfrifon i'r PAR – data a naratif cryno (IM a DT)	7 Tachwedd 2017

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
6. Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol	<p>6.1 Derbyniwyd cyflwyniad llafar gan Carol Warburton mewn perthynas â'r adroddiad sicrwydd sydd yn cael ei baratoi mewn perthynas â throsglwyddo trefniadau cyllido o'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch i Lywodraeth Cymru.</p> <p>6.2 Ymddiheurodd Carol Warburton nad oedd yr adroddiad papur yn barod ar gyfer y Pwyllgor oherwydd rhesymau personol.</p> <p>6.3 Cytunwyd i gylchredeg yr adroddiad i aelodau'r Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 21 Mehefin 2017.</p>	<p>CW i gyflwyno'r adroddiad i'r swyddogion i'w gylchredeg i PAR ac yna i'r BC</p>	<p>Cyn Mehefin 2017 a 21 Mehefin 2017</p>
7. Amserlen a phroses cyflwyno cyfrifon blynyddol (Eitem 7)	<p>7.1 Cyflwynwyd amserlen a phroses cyflwyno cyfrifon blynyddol gan y Cofrestrydd.</p> <p>7.2 Trafodwyd pam na ellid cymeradwyo'r cyfrifon cyn y Nadolig. Yn gyfansoddiadol nodwyd bod angen i'r Llys, sy'n cyfarfod ym mis Mawrth, gymeradwyo'r cyfrifon. Argymhellwyd ystyried newid y cyfansoddiad, maes o law, i osod yr awdurdod cymeradwyo yn nwylo'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn ffurfiol a chyflwyno'r cyfrifon i'r Llys, er gwybodaeth.</p> <p>7.3 Cafwyd trafodaeth ar 'Datganiad Llywodraethu' a'r angen i osod y wybodaeth yn y cyfrifon mewn ffurf sydd yn addas ar gyfer eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau. Pwysleisiwyd yr angen am gysondeb a chyfeiriwyd at SORP (datganiad arfer a argymhellir) a'r arfer ar hyn o bryd o gyflwyno cyfrifon ar ffurf ddarluniadol. Argymhellwyd y dylai'r swyddogion a'r archwilwyr allanol (Pricewaterhouse Coopers) drafod y mater a chytuno ar ffurf newydd o gyflwyno'r cyfrifon blynyddol.</p> <p>7.4 Cymeradwywyd yr amserlen.</p>	<p>Ystyried newid awdurdod cymeradwyo'r cyfrifon yn ffurfiol</p> <p>CR, DT a PwC i drafod ffurf cyflwyno'r cyfrifon blynyddol</p>	<p>Wrth adolygu Llywodraethiant</p> <p>Erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 2017</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
8. Polisi Buddsoddi'r Coleg	<p>8.1 Cafwyd trafodaeth gychwynnol ar ddatblygu polisi buddsoddi newydd ar gyfer y Coleg.</p> <p>8.2 Cytunwyd i baratoi papur ar gyfer y Bwrdd Cyfarwyddwyr, yn awgrymu camau i'w cymryd mewn perthynas â datblygu polisi buddsoddi, er mwyn awdurdodi'r swyddogion i weithredu hyn yn ystod y misoedd nesaf.</p>	IM/DT i baratoi papur ar y cyd gyda CW	Cyfarfod y Bwrdd, 21 Mehefin 2017
9. Rhestr ffioedd (Eitem 9)	<p>9.1 Derbyniwyd rhestr ffioedd a gynigir gan y Coleg ar gyfer darparu cydnabyddiaeth i aelodau allanol o bwyllgorau'r Coleg, aelodau allanol o baneli dyfarnu a phaneli adolygu, darparwyr rhaglen hyfforddiant datblygu staff a rhai swyddogaethau penodol eraill.</p> <p>9.2 Trafodwyd natur y ffioedd a'r posibilrwydd o godi rhai taliadau. Adroddwyd nad oedd rhai elusennau yn cynnig cydnabyddiaeth. Nodwyd y bwriad o adolygu'r ffioedd maes o law. Cynigiodd yr archwilwyr mewnol rannu dogfennaeth arfer da.</p> <p>9.3 Cymeradwywyd y rhestr ffioedd.</p>	Adolygu trefniadau. CW i ddarparu arfer da.	Wrth adolygu Llywodraethiant
10. Cyfraddau teithio a chynhaliaeth	<p>10.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar gyfraddau teithio a chynhaliaeth presennol y Coleg.</p> <p>10.2 Nodwyd bod y cyfraddau'n gyson â chyngor Cyllid a Thollau EM (HMRC).</p> <p>10.3 Cytunwyd ar barhau i gynnig yr un cyfraddau a'u codi yn unol â chyngor yr HMRC.</p>		
11. Y Gofrestr Risg (Eitem 11)	<p>11.1 Nodwyd y sylwadau ynghylch y Gofrestr Risg yn y materion yn codi (eitem 3.3).</p> <p>11.2 Eglurodd y Prif Weithredwr fod y Gofrestr Risg yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mhob cyfarfod ac yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn flynyddol ym mis Tachwedd.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	11.3 Yn unol â'r hyn a gytunwyd eisoes, bydd y Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu o ran ffurf a chynnwys yn ystod y misoedd nesaf.		
12. UFA	12.1 Nodwyd na chyflwynwyd rhaglen waith yr archwilwyr mewnol ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod. Gan na fydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn fuan, cytunwyd y dylid cyflwyno drafft o'r rhaglen archwilio mewnol i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr gymeradwyo gyda chopïau i aelodau annibynnol y Pwyllgor.	CW i ddarparu rhaglen waith i'r BC a PAR	Erbyn 21 Mehefin 2017
13. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	13.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017/18 dros y rhwydwaith fideo <ul style="list-style-type: none"> • 7 Tachwedd 2017, 10.00-12.30 • 13 Chwefror 2018, 10.00-12.30 • 15 Mai 2018, 10.00-12.30 		